


# Ystyried bod yn Gyflogwr sy'n Dda i Bobl Hŷn?

Manteisiwch arni.  
Croesawch waith i bobl hŷn.

 Centre for  
Ageing Better

Age-friendly  
Employer  
Pledge



# Hyrwyddo gwerth gweithwyr hŷn

Mae'r Ganolfan Heneiddio'n Well yn galw ar gyflogwyr i addo bod yn well i bobl hŷn.

Mae'r farchnad swyddi yn newid ac mae cyflogwyr yn wynebu heriau aruthrol. Ceir prinder sgiliau a llafur gyda nifer y swyddi gwag yn uwch nag erioed.

Mae gweithwyr yn eu 50au a'u 60au yn allweddol i lenwi'r bylchau yma. Ond eto, mae cyflogwyr yn colli'r cyfle i fanteisio ar bopeth y gall gweithwyr hŷn ei gynnig. Mae mwy o bobl yn

gweithio'n hwyrach mewn bywyd, ond yn aml mae gweithwyr hŷn yn wynebu rhagfarn ac yn cael eu hanwybyddu. Mae cyfraddau cyflogaeth yn gostwng ar ôl 55 oed, ac mae dros hanner y bobl wedi rhoi'r gorau i weithio cyn oedran pensiwn y wladwriaeth. Ond rydyn ni'n gwybod bod gweithluoedd aml-genhedlaeth yn gyrru cynhyrchiant ac arloesedd.



Awgrym gwych

**Nabod Eich Rhifau:  
Dadansoddwch ddata eich  
gweithlu fesul oedran**

**£6.6bn**

Mae'r sgiliau a'r prinder llafur yn costio hyd at £6.6 biliwn y flwyddyn i fusnesau'r DU








**Onid rydyn ni'n gwybod bod gweithluoedd aml-genhedlaeth yn gyrru cynhyrchiant ac arloesedd.**

# I bwy mae'r addewid?

Mae'r Adduned Cyflogwr sy'n Dda i Bobl Hŷn yn rhaglen ledled y wlad i gyflogwyr sydd:

-  Dylech gydnabod pwysigrwydd a gwerth gweithwyr hŷn wedi
-  ymrwmo i wella gwaith i bobl yn eu 50au a 60au (a'r tu hwnt)
-  yn barod i weithredu i'w helpu i ffynnu mewn gweithlu aml-genhedlaeth in a multigenerational workforce



**Awgrym gwych**

**Rhowch arweiniad gyrfaol i bobl canol oed a'r tu hwnt, gan gynnwys cynllunio ar gyfer ymddeol**



# Yr adduned

Fel Cyflogwr sy'n Dda i Bobl Hŷn, byddwn yn...

1

Nodi **uwch noddwr ar gyfer cynhwysiant oedran** yn ein gweithlu – a nodwn yn gyhoeddus ein hymrwymiad i'r addewid

2

Sicrhau bod oedran yn cael ei nodi'n benodol o fewn ein polisiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

3

Gweithredu i wella recriwtio, cadw a datblygu gweithwyr dros 50 oed o un o'r meysydd canlynol:

- ✓ Creu diwylliant sy'n dda i bobl hŷn
- ✓ Cyflogi pobl o bob oedran
- ✓ Bod yn hyblyg ynghylch gweithio hyblyg
- ✓ Annog datblygiad gyrfaol i bawb o bob oedran
- ✓ Sicrhau bod pawb yn cael y cymorth iechyd sydd ei angen arnynt

Byddwn ni'n ymrwymo i weithredu mewn o leiaf un maes bob blwyddyn a byddwn yn adrodd yn ôl ar ein gweithgareddau a'n cyflawniadau yn flynyddol.

“

## Saga – cefnogi 'Profiad Cenhedlaeth'

Mae Jane Storm, Prif Swyddog Pobl, yn esbonio'r newidiadau y mae Saga yn eu gwneud, o weithio hyblyg i fforymau cynhwysiant oedran.

Rydym yn cymryd gofal gyda'r geiriad rydyn ni'n ei ddefnyddio wrth recriwtio, gan osgoi iaith fel 'egniol' neu 'raddedigion', a allai gyflwyno rhagfarn ar sail oedran. Rydym yn edrych i gynneg hyblygrwydd mewn oriau a lleoliad, gan gydnabod y gall hyn fod yn werthfawr i bawb.

Ac i gael syniad gan gydweithwyr am yr hyn sy'n gweithio a lle gallem wneud yn well, rydym yn cynnal 'Fforymau Cynhwysiant Oedran' – sesiynau gwranddo ar oedran – gydag aelodau o'n Tîm Arwain Gweithredol.

“

## Llais Dave – yn dadymddeol gydag Ipsos

**Bu Dave yn gweithio yn Ipsos, sefydliad ymchwil i'r farchnad ryngwladol, am 11 mlynedd cyn dychwelyd.**

Pan benderfynodd Dave ei fod am ymddeol o'i waith ar ôl mynd yn rhan-amser, cefnogodd Ipsos y newid.

Ond ar ôl ychydig fisoedd o ymddeoliad, sylweddolodd Dave ei fod yn gweld eisiau'r teithio a gweithio gyda phobl o bob oedran.

Ers hynny, mae Dave wedi bod yn rhan o fentora grŵp o gydweithwyr o dan 25 oed gyda'u cymhwyster hyfforddi. Gyda chymorth Ipsos, mae Dave wedi gallu 'rhoi yn ôl' ar ôl blynyddoedd o hyfforddiant, datblygu a dilyniant

# Ble i ddechrau?

**Mae dod yn Gyflogwr sy'n Dda i Bobl Hŷn yn daith.**

Trwy lofnodi'r addewid, nid ydych yn ymrwmo i newid eich sefydliad cyfan dros nos. Rydych yn ymrwmo i gymryd un cam – boed hwnnw'n fawr neu'n fach – bob blwyddyn, i wella recriwtio a chadw gweithwyr hŷn. Bydd Heneiddio'n Well yn cefnogi

eich taith gyda fframwaith o gamau gweithredu awgrymedig, gweminarau ac astudiaethau achos o ymarfer effeithiol gan gyflogwyr fel chi.

**Dyma rai awgrymiadau ar gyfer lle gallech chi ddechrau arni...**



## Dadansoddi data eich gweithlu fesul oedran

Os ydych chi eisiau gwybod lle dylech chi ddechrau, bydd eich data'n dweud wrthyddych chi lle mae eich heriau mwyaf. Ydy ymgeiswyr hŷn yn llai tebygol o gael cyfsweliad? A yw eich staff yn eu 50au a'u 60au yn cyrchu hyfforddiant a datblygiad? Beth yw eich oedran gadael ar gyfartaledd? Bydd eich data eich hun yn rhoi man cychwyn i chi ar gyfer eich taith.



## Edrych ar eich hysbysebion swyddi

Mae ein hymchwil yn dangos nad yw gwneud hysbysebion swyddi yn fwy apelgar i weithwyr hŷn yn atal gweithwyr iau. Felly ceisiwch osgoi termau fel 'wedi graddio'n ddiweddar', ac ychwanegu datganiad amrywiaeth sy'n cynnwys cynwysoldeb oedran.



## Croesawu gwaith hyblyg am unrhyw reswm

Rydym yn gwybod mai hyblygrwydd yw'r ffactor allweddol sy'n denu gweithwyr yn eu 50au a'u 60au, ac mae'n galluogi pobl i aros mewn gwaith. Mae gwaith hyblyg yn cefnogi gweithwyr hŷn sydd â chyfrifoldebau gofalu ac i reoli eu hiechyd – ond gall hefyd roi lle iddynt gael buddion eraill o fywyd. Os gellir gwneud gwaith yn hyblyg, gellir ei wneud yn hyblyg gan unrhyw un.



## Darparu 'MOT' cyfannol i staff canol oed a hŷn

Peidiwch â chyfyngu sgysiau am ddatblygiad gyrfaol i weithwyr iau – a pheidiwch ag aros yn rhy hir i siarad am bensiynau. Mae'r MOT canol oed yn rhoi fframwaith ar gyfer sgysiau strwythuredig gyda staff yn eu 40au, 50au a'r tu hwnt am eu dyfodol – yn y gwaith, ac ar ôl hynny.



## Cael sgysiau agored am y menopos yn y gwaith

Mae symptomau'r menopos – a'r diffyg gallu i siarad amdanynt – yn gwthio gormod o fenywod allan o waith. Rhowch hyfforddiant i staff o bob oed a rhyw am effeithiau'r menopos a sut y gellir eu rheoli. Gall addasiadau bach wneud gwahaniaeth mawr.

Chwilio am fwy o gyngor ar fod yn dda i bobl hŷn?

Edrychwch ar ein fframwaith llawn



# Rhannu'r neges

## Annog eich cydweithwyr i lofnodi'r addewid

Dyma rai ffeithiau allweddol i helpu i annog eich sefydliad i gymryd rhan:

### **Mae cyflogaeth sy'n dda i bobl hŷn o fudd i bob un ohonom.**

Rydyn ni i gyd eisiau gwybod na fyddwn ni'n cael ein gwthio i'r cyrion wrth i ni heneiddio.

### **Nid yw cynnwys oedran yn cystadlu ag ymdrechion amrywiaeth eraill.**

Mae polisïau sy'n dda i bobl hŷn – megis gweithio hyblyg, sgysiau agored

am iechyd a chael gwared ar ragfarn o brosesau recriwtio – yn helpu pawb.

**Mae'r Addewid Cyflogwr sy'n Dda i Bobl Hŷn yn ymrwymiad bach, ond pwysig.** Mae Cyflogwyr sy'n Dda i Bobl Hŷn yn ymrwymo i gymryd un cam gweithredu'n unig y flwyddyn tuag at fod yn well i bobl hŷn – a nhw sy'n gallu penderfynu beth yw hynny.



## Buddion llofnodi'r addewid

- ✓ Mae recriwtio cadarnhaol o ran oedran yn golygu eich bod yn defnyddio cronfa ehangach o ymgeiswyr ar gyfer pob swydd.
- ✓ Mae ymchwil yn dangos bod gweithluoedd aml-ghenedlaeth yn gyrru cynhyrchiant ac arloesedd.
- ✓ Gall gweithwyr hŷn barhau i ffynnu a chyfrannu yn eich sefydliad.



# Beth sy'n digwydd nesaf?

1

Os ydych chi'n hollol newydd i'r addewid, gallwch ddechrau arni yma, trwy gofrestru eich diddordeb. Nid yw hyn yn eich ymrwymo i'r addewid; mae'n dweud wrthym eich bod am glywed mwy.

Cofrestru diddordeb

2

Yna bydd aelod o'n tîm mewn cysylltiad i drefnu amser ar gyfer galwad ragarweiniol. Yn yr alwad hon byddwn yn esbonio'r addewid yn fanylach ac yn trafod pa feysydd sydd o ddiddordeb i chi.

3

Pan fyddwch chi'n barod, gallwch lofnodi'r addewid yn ffurfiol. Y cwbl bydd angen i chi ei gyflwyno yw:

- Yr uwch noddwr a fydd yn llofnodi'r addewid
- Person dynodedig y gallwn gysylltu ag ef/â hi yn dilyn hyn
- Eich logo corfforaethol

Byddwch wedyn yn ymddangos ar ein gwefan fel cyflogwr sydd wedi llofnodi'r addewid.

Llofnodi'r addewid

[Darllenwch ein Telerau ac Amodau](#)

4

Yna byddwch yn derbyn:

- Pecyn cyfathrebu i'ch helpu i rannu'r neges gan gynnwys logo y gallwch ei ddefnyddio ar eich gwefan er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'ch ymrwymiad
- Cylchlythyrau rheolaidd gydag awgrymiadau, arweiniad ac ysbrydoliaeth
- Gwahoddiadau i alwadau a gweminarau cymheiriaid, i ddysgu gan gyflogwyr fel chi a'ch helpu i symud ymlaen ar eich taith i gynnwys pobl hŷn
- Galwad ddilynol ar ôl chwech a deuddeg mis i weld sut mae'n mynd – ac i chi rannu'r camau gweithredu rydych chi'n eu cymryd.



# Ynglŷn â'r Ganolfan Heneiddio'n Well

Mae'r Ganolfan Heneiddio'n Well yn arloesi â ffyrdd o wneud heneiddio'n well yn realiti i bawb, gan gynnwys herio gwahaniaethu ar sail oedran ac adeiladu Mudiad sy'n Dda i Bobl Hŷn, a chreu Cyflogaeth sy'n Dda i Bobl Hŷn a Chartrefi sy'n Dda i Bobl Hŷn.

Rydym yn sefydliad elusennol sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac yn rhan o What Works Network y llywodraeth.

## Cadw mewn cysylltiad

✉ [ageing-better.org.uk/enews](mailto:ageing-better.org.uk/enews)

🐦 @Ageing\_Better

Ymrwymwch i'r Addewid  
Cyflogwr sy'n Dda i Bobl  
Hŷn a dangoswch eich  
bod yn cydnabod gwerth  
gweithwyr hŷn.

Cofrestrwch eich diddordeb  
heddiw



WELLBEING PLANNING

Jan - Dec 23  
Mental health days  
Physical activities  
Football tournament  
A.S.I.

